

Adroddiad ar Adolygiad Ymarfer Oedolion

Adolygiad Estynedig o Ymarfer Oedolion Bwrdd Diogelu Oedolion Caerdydd a'r Fro

AAO 02/2017

Amlinelliad cryno o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad

I'w cynnwys yma: -

- *Cyd-destun cyfreithiol o ganllawiau ynglŷn â pha adolygiad a gynhelir*
- *Yr amgylchiadau sydd wedi arwain at yr adolygiad*
- *Cyfnod amser a adolygir a phaham*
- *Amserlen cryno o ddigwyddiadau arwyddocaol i'w hychwanegu ar ffurf atodiad*
-

Cyd-destun Cyfreithiol

Comisiynwyd adolygiad estynedig o ymarfer oedolion gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro ar argymhelliad yr Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion a Phlant yn unol â'r Canllawiau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Oedolion Amlasiantaethol. Caiff meini prawf yr adolygiad hwn eu bodloni dan Adran 139 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

'Rhaid i Fwrdd gomisiynu adolygiad ymarfer oedolion estynedig pan fo oedolyn sy'n wynebu risg

ac sydd heb, ar unrhyw adeg yn y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad, fod yn berson y mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu cymryd camau i'w ddiogelu rhag camdriniaeth neu esgeulustod yn dilyn ymchwiliad gan awdurdod lleol:

wedi marw; neu

wedi cael anaf a allai beryglu ei fywyd; neu

wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd.'

Yn unol â'r canllawiau, bodlonwyd y meini prawf ar gyfer Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig; tybid bod cam-drin yn ffactor cysylltiedig posib, ac yn ystod y chwe mis cyn marw, roedd yr oedolyn dan sylw'r adolygiad hwn yn destun ymholiadau diogelu oedolion yn dilyn atgyfeiriad gan ddarparwr gofal a gomisiynir.

Yr amgylchiadau sydd wedi arwain at yr adolygiad

Bu farw'r oedolyn sy'n destun yr adolygiad hwn, y byddwn yn cyfeirio ato fel Oedolyn A, yn 2017 ar ôl dal haint yn yr ysbyty. Y sail resymegol dros y penderfyniad i

gomisiynu'r Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig hwn oedd bod Oedolyn A yn oedolyn mewn perygl yr oedd ganddi anghenion gofal a chymorth a oedd yn golygu bod lefel uchel o ddibyniaeth ganddi (roedd hi wedi bod yn gaeth i'w gwely am ddeng mlynedd oherwydd iechyd gwael) ac felly nad oedd hi'n gallu amddiffyn ei hun rhag camdriniaeth.

Cyn mynd i'r ysbyty, roedd Oedolyn A yn byw yn ei chartref ei hun, gydag aelod o'r teulu a nodwyd yn ofalwr iddi. Roedd hi'n cael ei chynorthwyo gartref gan ddarparwr gofal a gomisiynir a oedd yn ymweld â hi bedwar gwaith y dydd i roi gofal personol iddi a'i chynorthwyo gyda phrydau bwyd.

Roedd hanes camddefnyddio alcohol a sylweddau yn y teulu, honiadau o gam-drin domestig a hanes o berthnasoedd tymhestlog rhwng aelodau'r teulu yng nghartref Oedolyn A. Codwyd sawl pryder diogelu oedolyn gan y darparwr gofal yn y misoedd cyn i Oedolyn A fynd i'r ysbyty ond ni chafwyd unrhyw ymateb amlasiantaethol i'r pryderon. Oherwydd diffyg datrys y pryderon am ei hamgylchiadau gartref, roedd oedi wrth ryddhau Oedolyn A o'r ysbyty lle arhosodd a daliodd haint ysbyty.

Y cyfnod amser a adolygwyd oedd rhwng 1 Hydref 2016 a 30 Ebrill 2017, sef dyddiad marwolaeth Oedolyn A. Roedd y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion wedi gwybod am Oedolyn A ers dros 10 mlynedd ond, yn y 18 mis cyn cyfnod yr adolygiad, prin roedd y cyswllt â rhai asiantaethau, gyda rhai gwasanaethau oedolion heb nodi unrhyw beth o bwys.

Ymarfer a dysgu sefydliadol

Nodi pob pwynt dysgu unigol sy'n deillio o'r achos hwn (gan gynnwys amlygu ymarfer effeithiol) ynghyd ag amlinelliad cryno o'r amgylchiadau perthnasol

(Gall amgylchiadau perthnasol sy'n ategu pob pwynt dysgu gael eu cyfeirio gan yr hyn a ddysgwyd trwy gyswllt y teulu â gwasanaethau gwahanol, safbwyntiau ymarferwyr, eu hasesiadau a'r camau a gymerwyd ganddynt, safbwyntiau aelodau'r teulu, tystiolaeth am ymarfer a'i effaith, ffactorau cyd-destunol a heriau.)

Gwahoddwyd cynrychiolwyr o Heddlu De Cymru, y Gwasanaethau Prawf, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, y Tîm Diogelu Oedolion, Tai, y Tîm Nyrsys Ardal, y Darparwr Gofal Cartref a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i'r Digwyddiad Dysgu. Mae hyn yn ystyried y sefyllfa gymhleth pan fo sawl asiantaeth wedi cael cyswllt ag Oedolyn A a'i theulu dros y deng mlynedd diwethaf ac yn benodol yn ystod cyfnod yr adolygiad.

Cyfathrebu a rhannu gwybodaeth

Roedd ymarferwyr yn y digwyddiad dysgu'n cydnabod eu bod wedi gweithio ar wahân i'w gilydd. Nid oeddent bob amser yn cydgysylltu ag asiantaethau eraill neu hyd yn oed ag aelodau staff eraill yn eu hasiantaeth eu hunain yn rheolaidd neu pan fo pryderon. Pe byddent wedi bod yn ymwybodol o bryderon gan asiantaethau eraill,

byddai wedi ychwanegu pwysau at eu pryderon eu hunain a gallai fod wedi arwain at ymateb amlasiantaethol i ymchwilio i'r pryderon a diogelu Oedolyn A.

Roedd ymarferwyr yn teimlo bod angen gwahodd asiantaethau perthnasol i gyfrannu at adolygiadau gwasanaethau oedolion o becynnau gofal er mwyn rhannu gwybodaeth berthnasol a all effeithio ar iechyd a diogelwch unigolyn. Cydnabuwyd na allai nyrsys ardal, darparwyr gofal cartref a staff gwasanaethau cymdeithasol ddod i bob adolygiad o becyn gofal, ond pan fo pryder wedi cael ei godi dylid disgwyl i bob asiantaeth berthnasol fod yn bresennol yn yr adolygiad neu gyfrannu ato mewn ffordd arall. Dylai'r fath ddisgwyliad arwain at gyfathrebu cliriach a nodi pryderon diogelu'n gynt.

Asesu

Mae angen i asiantaethau gofio wrth asesu/adolygu addasrwydd pecynnau gofal bod temtasiwn weithiau i ganolbwyntio ar y risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau mwy amlwg, megis codi unigolion neu beryglon baglu, yn hytrach na chanolbwyntio'n ystyrlon ar p'un a yw'r oedolyn sydd mewn perygl yn ddiogel rhag camdriniaeth yn ei gartref ei hun. Mae'n arbennig o bwysig yn ystod yr adolygiad asesu bod yr oedolyn mewn perygl yn cael yr amser a'r cyfle i gymryd rhan yn y broses ac i rywun siarad ag ef/â hi heb unrhyw arall yno i osgoi dylanwad amhriodol gan eraill.

Roedd yn ymddangos i'r adolygwyr bod yna rwystrau anfuddiol i gyfathrebu rhwng y darparwyr gofal, tîm adolygu'r Gwasanaethau Cymdeithasol a thîm diogelu'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Aeth pryderon am les Oedolyn A ar goll ymhlith y tri thîm hynny. Dylai awdurdodau lleol gofio'r ffaith bod darparwyr gofal a gomisiynir yn cael cyswllt mwy aml â chleientiaid ac yn gweld yr amgylchiadau yn eu cartrefi bob dydd. Dylid parchu barn darparwyr gofal a gomisiynir ar, er enghraifft, y pecyn gofal sydd ar waith neu ymddygiad aelod arall o'r teulu a dylid rhoi pwys ac ystyriaeth ddyledus i hon wrth asesu risgiau.

Diogelu Oedolion a Chydsyniad

Roedd ymarferwyr yn cydnabod nad oeddent wedi dilyn y weithdrefn gywir ar adegau wrth adrodd am bryderon diogelu. Nid yw cyflwyno ffurflen VA1 yn diogelu rhywun; y camau diogelu a gymerir o ganlyniad i nodi a rhannu pryderon sy'n gwneud hynny. Ar ddau achlysur cwblhaodd y darparwr gofal cartref atgyfeiriad diogelu ar ôl honiad gan Oedolyn A bod ei gofalwr wedi'i cham-drin ond nid adroddwyd am hyn i'r heddlu. Mae'r adolygwyr o'r farn bod gormod o ffydd yn cael ei roi yn yr atgyfeiriad VA1 fel mesur diogelu, yn hytrach nag asiantaethau'n adolygu'r camau a gymerwyd yn sgil eu hatgyfeiriad a, phan fo angen, uwchgyfeirio eu pryderon er mwyn diogelu Oedolyn A.

Ni chynhaliwyd trafodaeth/cyfarfod strategaeth â phob asiantaeth berthnasol mewn ymateb i'r ymosodiad honedig. Roedd y gweithiwr cymdeithasol yn meddwl bod angen cael cydsyniad Oedolyn A i ddilyn gweithdrefnau diogelu; nid oedd hwn wedi cael ei roi ac felly ni chymerwyd unrhyw gamau pellach. Yn y digwyddiad dysgu roedd cryn ddryswch ymhlith ymarferwyr am faterion cydsyniad a diogelu.

Mae gan oedolion hawl i annibyniaeth, dewis a hunanbenderfyniad, gan gynnwys rheoli gwybodaeth amdanynt eu hunain. Os oes galluedd meddyliol gan berson ac mae'n gofyn i beidio â rhannu gwybodaeth neu adrodd i'r heddlu, dylid parchu ei ddymuniadau. Fodd bynnag, yng nghyd-destun diogelu oedolion a phan fo rhesymau y gellir eu cyfiawnhau i weithredu'n groes i ddymuniadau rhywun er mwyn diogelu unigolyn neu unigolion, gellir rhannu gwybodaeth heb gydsyniad, er enghraifft:

- pan fo'r person yn cael ei orfodi neu mae dan ddylanwad amhriodol i'r graddau na all roi cydsyniad
- pan fo budd y cyhoedd yn bwysicach, er enghraifft mae perygl i bobl eraill
- er mwyn atal cam-drin neu ofid difrifol mewn rhai sefyllfaoedd a allai arwain at farwolaeth
- pan fo asesiad risg Cam-drin Domestig, Stelcio a Thrais ar sail Anrhydedd (DASH) yn awgrymu risg uchel o niwed difrifol neu lofruddiaeth.

Roedd ymarferwyr yn y digwyddiad dysgu'n gallu myfyrio ynghylch cydsyniad a diogelu a derbyn nad oes angen cydsyniad oedolyn mewn perygl er mwyn cynnal trafodaeth/cyfarfod strategaeth am ei les. Mae'r camsyniad o ran cydsyniad yn parhau'n rhwystr i ddiogelu pobl.

Cam-drin Domestig ac Anabledd

Rhannodd yr ymarferydd o WAST (Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru) fod ei staff wedi colli cyfle i ofyn cwestiynau i Oedolyn A, pan oedd hi ar ei phen ei hun gyda nhw, am ei lles cyffredinol a cham-drin domestig a fictimeiddio yn benodol.

Ym 2015 cyhoeddwyd adroddiad gan Public Health England o'r enw [Disability and Domestic Violence, Risk, Impact and Response](#). Bu'r adroddiad yn adolygu'r dystiolaeth a'r wybodaeth ystadegol cyhoeddedig am gam-drin domestig sy'n effeithio ar bobl anabl. Tynnodd sylw at y canfyddiad bod pobl anabl yn profi lefelau anghymesur uwch o gam-drin domestig. Maent hefyd yn cael ei gam-drin am fwy o amser ac yn dioddef camdriniaeth fwy difrifol ac aml na phobl abl.

Siaradodd ymarferwyr yn y digwyddiad dysgu yn gadarnhaol am broiect Pili-pala Cymru Ddiogelach sydd wedi dod i ben ac a oedd yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth i bobl hŷn am faterion cam-drin domestig. Byddent yn croesawu ailfuddsoddi mewn gwasanaeth tebyg.

Dylai Gofal Cymdeithasol i Oedolion fod yn asiantaeth graidd yn y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg o Gam-drin Domestig (CAARCD). Yn aml byddant yn dal gwybodaeth hanfodol am anghenion gofal a chymorth yr unigolyn, pecynnau gofal a phryderon ynglŷn â galluedd yn ogystal â chynnig camau gweithredu, gan gynnwys asesiadau.

Hyfforddiant

Adroddodd ymarferwyr fod yr hyfforddiant diogelu oedolion presennol a gynigir gan y Bwrdd Diogelu yn annigonol yn gyffredinol a bod angen ei wella i gynnwys rhagor am bynciau megis cydymffurfiaeth ffug gan ofalwyr (ymadrodd sy'n cael ei ddefnyddio'n

aml i ddisgrifio gofalwyr plant ond nid yn aml ar gyfer gofalwyr oedolion), diogelu a chydsyniad, diogelu a galluedd meddyliol a rhannu gwybodaeth. Gall rhai ymarferwyr elwa hefyd o fynd i hyfforddiant CAARCD er mwyn gwella'u gwybodaeth am sefyllfaoedd cam-drin domestig risg uchel fel y gellir diogelu pob unigolyn sy'n agored i niwed ac sydd mewn cartref lle mae cam-drin domestig yn gyffredin mewn ffordd well.

Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd (HDC) yr Heddlu

Nid oedd Oedolyn A bob amser yn cael ei chynnwys ar yr HDCau a gyflwynwyd oherwydd digwyddiadau o ymddygiad ymosodol rhwng perthnasau eraill yn y cartref teuluol gan olygu na chafodd gwybodaeth am y digwyddiadau hyn ei rhannu â'r Gwasanaethau Oedolion. Ar un achlysur, er bod Oedolyn A wedi'i chynnwys ar yr HDC, ni chafodd y ddogfen ei rhannu â'r Gwasanaethau Oedolion gan nad oedd hi wedi'i rhestru fel y prif destun; o ganlyniad i broses a gytunwyd yn lleol, ni fyddai'r ffurflen yn cael ei derbyn gan y gwasanaethau iechyd na chymdeithasol. Pan nodwyd y broses hon, o ganlyniad i'r adolygiad hwn, rhoddwyd terfyn arni ac nid yw hi ar waith mwyach.

Yn ystod y digwyddiad dysgu, roedd swyddogion yr heddlu'n dangos gwell ymwybyddiaeth o'r angen i gynnwys unrhyw oedolyn agored i niwed ar yr HDC a oedd yn bresennol yn ystod anghydfod rhwng eraill. Ar ôl peth myfyrio, penderfynodd Cwmni Adsefydlu Cymunedol hefyd y byddai'n meddwl yn fwy cyfannol yn y dyfodol am oedolion agored i niwed sydd ynghlwm wrth anghydfodau, yn hytrach na chanolbwyntio yn unig ar aelodau teulu sy'n rhan yn uniongyrchol o'r anghydfod.

Safonau'r Cartref a Gofal Seibiant

Teimlid bod anghysondeb o ran lefel yr amodau gwael yng nghartref Oedolyn A oedd yn cael eu derbyn gan rai ymarferwyr; er enghraifft, doedd dim bwlb golau yn ystafell Oedolyn A ac ar adegau doedd dim trydan na dŵr poeth, ac roedd baw ci yn yr eiddo. Er y'i derbynnir bod pobl yn gallu dewis sut maen nhw am fyw, roedd ymarferwyr o'r farn y dylai fod canllawiau ar gyfer lefelau derbyniol amodau cartrefi pan na all pobl gymryd cyfrifoldeb am amodau eu llety eu hunain, oherwydd afiechyd neu anabledd. Gallai'r fath arweiniad helpu i ddiogelu pobl yn eu cartrefi eu hunain a darparu amgylchedd diogel ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld.

Cafwyd honiadau o gam-drin a phryderon am oedolion anwedus yn mynychu'r eiddo, amodau gwael y cartref, diffyg cyswllt cymdeithasol a diffyg cyfleoedd wedi'u teilwra ar gyfer Oedolyn A. Roedd y Gwasanaethau Oedolion wedi cytuno y dylid ceisio gofal seibiant bythefnos yn unig cyn i Oedolyn A fynd i'r ysbyty, ond roedd hyn oherwydd pryder am lefel y pwysau ar ei gofalwr a'i gallu i ymdopi, yn hytrach nag oherwydd pryder am les Oedolyn A.

Roedd oedi wrth ddod o hyd i ofal seibiant ar gyfer Oedolyn A. Roedd anawsterau cyfathrebu rhwng y Tîm Adolygu Gofal Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Nyrsys Ardal,

yn rhannol oherwydd bod atgyfeiriad wedi'i anfon trwy ffacs. Mae anfon atgyfeiriadau trwy ffacs yn arfer annibynadwy a hen ffasiwn. Mae'n anodd archwilio derbyn atgyfeiriadau wedi'u hanfon trwy ffacs ac yn yr achos hwn, cyfrannodd atgyfeiriad 'ar gyfeiliorn' at yr oedi wrth ddod o hyd i ddewis seibiant addas ar gyfer Oedolyn A.

Bu ymarferwyr yn y digwyddiad dysgu'n nodi nad oedd gofal seibiant amserol ar gael fel arfer ond mewn argyfyngau oherwydd prinder y dewisiadau seibiant sydd ar gael i'r awdurdod lleol.

Derbyn i'r Ysbyty

Roedd y digwyddiadau a barodd i Oedolyn A orfod mynd i'r ysbyty yn cynnwys atgyfeiriad diogelu gan y darparwr gofal a gomisiynir. Dylai cyfarfod strategaeth fod wedi'i gynnal o fewn saith niwrnod ond ni ddigwyddodd hyn.

Yn y digwyddiad dysgu, dywedodd ymarferwyr o'r ysbyty nad oeddent wedi cael eu hysbysu'n llawn am y rhesymau bod angen lleoliad seibiant ar Oedolyn A ar ôl cael ei rhyddhau yn hytrach na gallu dychwelyd i'w chartref teuluol. Petaent wedi gwybod, mae'n bosibl na fyddai'r cyfrifoldeb a roddwyd i rai aelodau o'r teulu tra oedd Oedolyn A yn yr ysbyty wedi cael ei ystyried yn briodol.

Ystyrid bod Oedolyn A yn feddygol iach i gael ei rhyddhau ddau ddiwrnod ar ôl mynd i'r ysbyty. Ni threfnwyd cyfarfod rhyddhau'n ddiogel tan bedair wythnos ar ôl iddi gyrraedd yr ysbyty. Yn anffodus, bu farw Oedolyn A o haint a ddaliwyd yn yr ysbyty cyn y gellid cynnal y cyfarfod rhyddhau'n ddiogel.

Ar ôl i gleifion fod yn feddygol iach i gael eu rhyddhau, mae'n ddymunol iddynt ddychwelyd i'r gymuned cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi sefyllfa fel hon.

Gwella Systemau ac Ymarfer

Er mwyn hyrwyddo'r dysgu o'r achos hwn, nododd yr adolygiad y camau canlynol ar gyfer y BDO a'i aelod-asiantaethau a'r canlyniadau gwelliant disgwylidig:

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn canolbwyntio ar gamau gweithredu a allai "wella systemau ac ymarfer, ac a ddylai fod yn benodol, yn ymarferol ac yn fforddiadwy gyda chanlyniadau disgwylidig wedi'u diffinio'n glir" fel a nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 3, Adolygiadau Ymarfer Oedolion.

Gwelliannau Asiantaethau mewn Ymarfer

Mae asiantaethau eisoes wedi cymryd camau i wella ymarfer yn ystod yr amser sydd wedi mynd heibio ers marwolaeth Oedolyn A:

1. Cafwyd newid mewn ymarfer o ran achosion a atgyfeirir i'r MASH sy'n cynnwys elfennau cham-drin domestig a phan fo'r oedolyn yn bodloni'r diffiniad o oedolyn mewn perygl.
2. Dylai'r newidiadau hyn arwain nawr at drafodaeth strategaeth yn cael ei chynnal yn y MASH am oedolyn mewn perygl fel Oedolyn A a oedd mewn sefyllfa gythryblus gartref a allasai fod yn niweidiol.
3. Bu newid hefyd mewn ymarfer o ran anfon ceisiadau am asesiadau seibiant nyrsio trwy ffacs. Ni chaiff negeseuon eu hanfon trwy ffacs mwyach a chaiff gwybodaeth ei chyflwyno trwy e-bost nawr.
4. Nododd yr ymarferydd o Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn y digwyddiad dysgu iddynt golli cyfle i gynnal ymholiad arferol i gam-drin domestig posibl pan oeddent ar eu pennau eu hunain gydag Oedolyn A. Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn darparu hyfforddiant "Holi a Gweithredu" ar hyn o bryd ynglŷn â chynnal "ymholiad penodol" yn unol ag ymrwymadau statudol y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol o dan Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.
5. Diddymwyd y broses a gytunwyd yn lleol a oedd yn cyfyngu ar rannu HDCau lle nad oedd oedolion mewn perygl yn brif destun y digwyddiad.

Camau Cymeradwy ar gyfer y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

Mae'r pwyntiau dysgu a nodwyd trwy'r adolygiad hwn wedi arwain at ragor o gamau cymeradwy ar gyfer y bwrdd.

1. Bydd Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro yn adolygu'r hyfforddiant diogelu oedolion a cham-drin domestig sydd ar gael ar hyn o bryd i staff er mwyn sicrhau ei fod yn egluro'r camau diogelu y disgwylir eu cymryd ar unwaith pan wneir honiadau o gam-drin yn ogystal â galluedd, cydsyniad, cydymffurfiaeth ffug a phryd i ddilyn gweithdrefnau diogelu oedolion.
2. Hefyd dylai'r hyfforddiant hwn fynd ati'n benodol i atgoffa ymarferwyr y gallai fod pryderon diogelu sy'n gofyn am drafodaeth amlasiantaeth hyd yn oed os oes rhywun yn derbyn pecyn gofal. Dylai'r hyfforddiant gwell hwn greu gweithlu sy'n fwy gwybodus a hyderus, gyda sgiliau gwell i ddiogelu oedolion.
3. Bydd pob partner awdurdod lleol sy'n rhan o Fwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro yn sicrhau bod pob asiantaeth sy'n ymwneud ag oedolyn sy'n derbyn gofal yn gallu gwneud cyfraniad ystyrlon at y broses adolygu pecynnau gofal a nodi problemau diogelu'n gynnar.
4. Bydd Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro yn archwilio atgyfeiriadau diogelu oedolion i Dîm Diogelu Oedolion y Fro a MASH Caerdydd sy'n ymwneud â cham-drin domestig, er mwyn penderfynu a ddylid cynnal trafodaeth/cyfarfod strategaeth ac, os na chynhelir un, gael gwybod pa gamau sydd wedi'u cymryd.

5. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod y MASH yn gwella ymarfer diogelu trwy ddulliau amlasiantaethol gwell o rannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau.
6. Bydd yn ofyniad gan Fwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro i'r Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion gael ei gynnwys fel aelod craidd o CAARCD a bod staff perthnasol o bob asiantaeth yn derbyn hyfforddiant amlasiantaeth CAARCD.

Fel arfer mae cynrychiolydd o Wasanaethau Oedolion Bro Morgannwg ar CAARCD.

7. Bydd Heddlu De Cymru yn atgoffa staff bod rhaid cynnwys manylion unrhyw oedolyn mewn perygl sy'n rhan o ddigwyddiad neu y mae digwyddiad yn effeithio arno/arni ar yr HDC.
8. Dylai Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro ddatblygu canllawiau ar gyfer ymarferwyr ynglŷn â lefelau derbyniol o amodau cartrefi pan na all pobl gymryd cyfrifoldeb am amodau eu llety eu hunain.

Argymhellir hefyd i'r canllawiau hyn ennill statws polisi yn ei rinwedd ei hun yn hytrach na bod yn is-adran polisi hunanesgeuluso eang.

9. Dylai Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro ddatblygu protocol ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol ynglŷn â phobl yr oedd ganddynt anghenion gofal a chymorth yn y gorffennol sy'n debygol o effeithio ar driniaeth a chynllunio rhyddhau er mwyn hwyluso rhyddhau cleifion sy'n feddygol iach i'r gymuned cyn gynted â phosibl.

Datganiad gan yr Adolygydd/Adolygwyr			
ADOLYGYDD 1	Jane Foulner	ADOLYGYD D 2 (fel sy'n briodol)	Dr Lorna Price
Datganiad o fod yn annibynnol ar yr achos <i>Datganiad cymhwyster Sicrwydd Ansawdd</i>		Datganiad o fod yn annibynnol ar yr achos <i>Datganiad cymhwyster Sicrwydd Ansawdd</i>	
<p>Rwy'n gwneud y datganiad canlynol: Cyn fy nghyfranogiad yn yr adolygiad dysgu hwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid oedd gennyf unrhyw gyswllt uniongyrchol â'r unigolyn neu'r teulu, ac nid wyf wedi rhoi unrhyw gyngor proffesiynol ar yr achos Nid wyf wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol i'r ymarferydd/ymarferwyr sy'n ymwneud â'r achos. Mae gennyf y cymwysterau, y wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad. Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr yn ei ffordd o ddadansoddi a gwerthuso'r materion fel a nodir yn y cylch gorchwyl. 		<p>Rwy'n gwneud y datganiad canlynol: Cyn fy nghyfranogiad yn yr adolygiad dysgu hwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid oedd gennyf unrhyw gyswllt uniongyrchol â'r unigolyn nac â'r teulu, ac nid wyf wedi rhoi unrhyw gyngor proffesiynol ar yr achos Nid wyf wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol i'r ymarferydd/ymarferwyr sy'n ymwneud â'r achos. Mae gennyf y cymwysterau, yr wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad. Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr yn ei ffordd o ddadansoddi a gwerthuso'r materion fel a nodir yn y cylch gorchwyl. 	
Adolygydd 1 (Llofnod)	Adolygydd 2 (Llofnod)
Enw (Llythrennau Bras)	Jane Foulner.....	Enw (Llythrennau Bras)	Lorna Price
Dyddiad	Dyddiad

Cadeirydd y Panel Adolygu
(Llofnod)
Enw
(Llythrennau Bras) ...Andrew Cole.....

Dyddiad

Atodiad 1: Cylch gorchwyl

Atodiad 2: Llinell amser gryno

Y Broses Adolygu Ymarfer Oedolion

I gynnwys y canlynol (yn gryno):

- *Y broses a ddilynwyd gan y BDO a'r gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y Panel Adolygu*
- *Cynhaliwyd digwyddiad dysgu a'r gwasanaethau a oedd yn bresennol*
- *Roedd aelodau o'r teulu wedi cael eu hysbysu, gofynnwyd am eu barn a ystyriwyd trwy gydol y digwyddiad dysgu ac roedd adborth wedi'i roi iddynt.*

Sefydlwyd Panel Adolygu Ymarfer Oedolion ar 25/05/2018, dan gadeiryddiaeth Andy Cole, Rheolwr Gweithredol Cyngor Sir Bro Morgannwg. Yr adolygwyr oedd Dr Lorna Price, Meddyg Dynodedig, y Tîm Diogelu Cenedlaethol, GIG Cymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru) a Jane Foulner, Uwch Swyddog Prawf, Caerdydd.

Roedd y Panel yn cynnwys cynrychiolwyr o Heddlu De Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, y Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, y Tîm Diogelu Oedolion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Therapi Galwedigaethol Cyngor Caerdydd, y Cwmni Adsefydlu Cymunedol, Tai Caerdydd a'r Gwasanaeth Gofal a Gomisiynir.

Cynhaliwyd digwyddiad dysgu ar 24 Hydref 2018 a bu aelodau o staff yn bresennol o Heddlu De Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, y Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, y Tîm Diogelu Oedolion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Therapi Galwedigaethol Cyngor Caerdydd, y Cwmni Adsefydlu Cymunedol, Tai Caerdydd a'r Gwasanaeth Gofal a Gomisiynir. Yn anffodus, nid oedd y darparwyr gofal cartref yn gallu aros trwy'r digwyddiad dysgu cyfan ac nid oedd un o'r gweithwyr cymdeithasol â rhan allweddol yn yr achos yn gallu dod. Dylid canmol yr ymarferwyr a ddaeth i'r digwyddiad dysgu am eu cyfraniadau agored a gonest.

Ni chyfarfu'r adolygwyr ag aelodau'r teulu oherwydd nad ymatebodd un i wahoddiad i gyfarfod arfaethedig a gwrthodwyd y gwahoddiad gan un arall.

Gwrthododd y teulu gymryd rhan

At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig

Dyddiad derbyn y wybodaeth

Dyddiad anfon y llythyr cydnabod at gadeirydd y BDO

Dyddiad ei ddosbarthu i arolygiaethau/arweinwyr polisi perthnasol

Asiantaethau	Ie	Na	Rheswm
AGGCC	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Estyn	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
AIC	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Arolygiaeth Cwnstabiliaeth EM	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Arolygiaeth Prawf EM	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	

Atodiad 1

Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg

Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygiad Ymarfer Oedolion (Estynedig) Enghraifft

Ynghylch: AAO 2/2017

Cyflwyniad

Caiff adolygiad ymarfer oedolion estynedig ei gomisiynu gan y Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol (BDORh) yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 3. Caiff adolygiad ymarfer oedolion estynedig ei gomisiynu pan fo oedolyn sy'n wynebu risg wedi bod, ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad, yn unigolyn y mae awdurdod lleol wedi penderfynu cymryd camau i'w amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod yn dilyn ymholiad gan awdurdod lleol:

wedi marw; neu
wedi cael anaf a allai beryglu ei fywyd; neu
wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd.

Cylch Gorchwyl

Mae cylch gorchwyl yr adolygiad hwn fel a ganlyn:

- Y cyfnod amser ar gyfer yr adolygiad hwn fydd **1 Hydref 2016 tan 30 Ebrill 2017**.
- Bydd y gwasanaethau canlynol yn creu llinell amser o ddigwyddiadau arwyddocaol wrth ymwneud â'r oedolyn yn ystod y cyfnod amser uchod. Yna caiff llinell amser gyfunol ei greu.
 - Heddlu De Cymru
 - Gwasanaethau Oedolion Caerdydd
 - Diogelu Oedolion Caerdydd
 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (*Nyrsys Ardal/Meddygon Teulu/Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau*)
 - Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
 - Therapi Galwedigaethol Caerdydd
 - Gwasanaeth Gofal a Gomisiynir
 - Cwmni Adsefydlu Cymunedol (Cymru)
 - Tai Caerdydd

Tasgau Craidd (ar gyfer adolygiad ymarfer oedolion cryno/estynedig (dilëer fel sy'n briodol))

- Asesu p'un a yw'r penderfyniadau a'r camau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau'r gwasanaethau a enwyd a'r Bwrdd.
- Archwilio gwaith rhyng-asiantaethol a darpariaeth gwasanaethau ar gyfer yr unigolyn a'r teulu.
- Asesu i ba raddau roedd y penderfyniadau a'r camau gweithredu'n seiliedig ar yr unigolyn.
- Ceisio cyfraniadau at yr adolygiad gan aelodau perthnasol o'r teulu a'u hysbysu'n gyson am agweddau allweddol ar gynnydd.
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau neu weithrediadau sy'n ymwneud â'r achos yr ymgwymerir â nhw ar yr un pryd.
- Cynnal digwyddiad dysgu ar gyfer ymarferwyr a nodi'r adnoddau sy'n angenrheidiol.

Ar gyfer adolygiad Estynedig YN UNIG. Yn ogystal â'r broses adolygu, rhoi ystyriaeth benodol i'r canlynol:

- A oedd gwybodaeth neu hanes perthnasol blaenorol am yr oedolyn mewn perygl a/neu aelodau'r teulu'n hysbys ac yn cael ei (h)ystyried ym mhrosesau asesu, cynllunio a phenderfynu gweithwyr proffesiynol ynglŷn â'r oedolyn mewn perygl, y teulu a'u hamgylchiadau. Sut cyfrannodd y wybodaeth honno at yr hyn a ddigwyddodd i'r oedolyn mewn perygl.
- A oedd y camau a nodwyd i ddiogelu'r oedolyn mewn perygl yn gadarn ac yn briodol i'r oedolyn dan sylw a'i hamgylchiadau.
- A gafodd y camau gweithredu eu rhoi ar waith, eu monitro a'u hadolygu'n effeithiol ac a gyfrannodd pob asiantaeth yn briodol at ddatblygu a chyflwyno camau amlasiantaeth.
- Agweddau'r camau gweithredu a lwyddodd a'r rhai nad oeddent yn llwyddiannus a pham. I ba raddau y gwnaeth asiantaethau herio ei gilydd o ran effeithiolrwydd y camau gweithredu, gan gynnwys cynnydd yn erbyn amcanion cytunedig ar gyfer yr oedolyn mewn perygl. A ddilynwyd y protocol ar gyfer anghytundeb proffesiynol.
- A gyflawnwyd dyletswyddau statudol perthnasol yr asiantaethau a oedd yn gweithio gyda'r oedolyn mewn perygl a'r teulu?

- A gafwyd rhwystrau neu anawsterau yn yr achos hwn a oedd yn atal asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau (dylai hyn gynnwys ystyried materion sefydliadol a materion cyd-destunol eraill).

Tasgau penodol y Panel Adolygu

- Nodi a chomisiynu adolygydd/adolygwyr i weithio gyda'r *Panel Adolygu* yn unol â chanllawiau ar gyfer adolygiadau cryno ac estynedig.
- Cytuno ar y cyfnod amser.
- Nodi asiantaethau, gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau perthnasol i gyfrannu at yr adolygiad na ofynnwyd amdanynt eisoes gan yr Is-grŵp Adolygu Ymarfer Plant/Adolygu Ymarfer Oedolion, creu llinell amser a chrynodeb achos cychwynnol a nodi unrhyw gamau gweithredu brys sydd eisoes wedi'u cymryd.
- Creu llinell amser gyfunol ynghyd â dadansoddiad a damcaniaethau cychwynnol
- Cynllunio digwyddiad dysgu gyda'r adolygydd/adolygwyr ar gyfer ymarferwyr i gynnwys nodi cyfranogwyr a threfniadau ar gyfer eu paratoi a'u cefnogi cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau ar gyfer adborth.
- Cynllunio trefniadau gyda'r adolygwyr i gysylltu â'r unigolyn ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad.
- Derbyng ac ystyried adroddiad drafft yr adolygiad ymarfer oedolion i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i gyflawni, yr ymdriniwyd â'r ddamcaniaeth gychwynnol a bod unrhyw wersi ychwanegol wedi'u nodi a'u cynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau'r adolygiad ac ar gynllun gweithredu, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r BDORh i'w cymeradwyo a'u cytuno.
- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl cwblhau'r adroddiad a chyn ei gyhoeddi.

Tasgau'r Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol (BDORh)

- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu i'r Bwrdd y dylid eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.
- Dylai'r *panel adolygu* gwblhau'r adroddiad a'r cynllun gweithredu.

- Dylai'r BDORh anfon yr adroddiad a'r cynllun gweithredu at yr asiantaethau perthnasol i gael sylwadau terfynol cyn eu cymeradwyo a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cadarnhau trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun gweithredu amlasiantaeth gan yr Is-grŵp Adolygu Ymarfer Plant / Adolygu Ymarfer Oedolion, gan gynnwys sut caiff gwelliannau i wasanaethau eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.
- Cynllunio cyhoeddi'r rhain ar wefan y BDORh.
- Cytuno ar y broses o'i ledaenu i asiantaethau, gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau perthnasol.
- Bydd Cadeirydd y BDORh yn gyfrifol am wneud yr holl sylwadau ac ymatebion cyhoeddus i ddiddordeb y cyfryngau nes cwblhau'r broses.

Atodiad 2

AAO 02/2017: Llinell Amser Gryno

Dyddiad	Hydref 2016	Tachwedd 2016	Rhagfyr 2016	
Digwyddiad	Gwnaeth y Darparwr Gofal a Gomisiynir hysbysu'r Tîm Gofal Cymdeithasol Oedolion nad oedd y gofalwr yn rhoi meddyginiaeth i Oedolyn A ar yr amser a bennwyd.	Cysylltodd y Darparwr Gofal a Gomisiynir â'r Tîm Gofal Cymdeithasol Oedolion i ofyn am adborth.	Gwnaeth y Darparwr Gofal a Gomisiynir atgyfeiriad i'r Tîm Gofal Cymdeithasol Oedolion gyda phryderon am amodau gwael y cartref, y trydan yn cael ei ddiffodd yn rheolaidd (felly dim golau na dŵr poeth i olchi Oedolyn A), grwpiau mawr o ddynion yn defnyddio cyffuriau yn yr eiddo ac ymddygiad ymosodol gan y	Un wythnos yn ddiweddarach, gwnaeth y Darparwr Gofal a Gomisiynir atgyfeiriad Diogelu Oedolyn yn dilyn datgeliad gan Oedolyn A bod ei gofalwr wedi ymosod arni trwy daro ei hwyneb. Gellid gweld marc coch.

			gofalwr ac aelod arall o'r teulu.	
Canlyniad		Neilltuwyd gweithiwr cymdeithasol a ymwelodd â'r cartref i ddatrys y problemau gyda'r feddyginiaeth.	Ymwelodd y gweithiwr cymdeithasol ag Oedolyn A ond dywedodd nad oedd unrhyw broblemau. Gan yr ystyrid bod galluedd gan Oedolyn A, ni chymerwyd unrhyw gamau pellach ar y pryd hwnnw.	Cyfarfu'r gweithiwr cymdeithasol â'r gofalwr a'r Darparwr Gofal a Gomisiynir Tynnodd Oedolyn A y datgeliad yn ôl. Ystyrid bod ganddi alluedd llawn ac ni chymerwyd camau pellach.

Dyddiad	Ionawr 2017	Chwefror 2017		Mawrth 2017		
Digwyddiad	Galwyd yr heddlu i gartref Oedolyn A gan y bu anghydfod rhwng ei gofalwr ac aelod benywaidd o'r teulu a honnodd fod y gofalwr wedi gafael yn ei gwddf.	Galwyd yr heddlu eto i gartref Oedolyn A ar ôl ffræ rhwng ei gofalwr a'r un aelod benywaidd o'r teulu.	Un ar ddeg o ddiwrnodau'n ddiweddarach, galwyd yr heddlu eto i gartref Oedolyn A ar ôl ffræ dreisgar rhwng ei gofalwr a'r un aelod benywaidd o'r teulu.	Galwad ffôn gan y Darparwr Gofal a Gomisiynir i'r Tîm Gofal Cymdeithasol Oedolion i fynegi pryderon am les Oedolyn A. Nid yw ei gofalwr yn ymdopi ac mae angen gofal seibiant.	Galwyd yr heddlu eto i gartref Oedolyn A ar ôl ffræ rhwng ei gofalwr a'r un aelod benywaidd o'r teulu.	Galwodd gofalwr Oedolyn A 999 i ofyn am ambiwlans. Roedd e'n poeni nad oedd Oedolyn A yn bwyta ac yn yfed a'i bod wedi mynd yn ddryslyd.
Canlyniad	Datgelodd ymholiadau gan yr heddlu nad oedd y digwyddiad yn cyfateb i'r hyn a adroddwyd yn gyntaf. Cyflwynwyd HDC a grybwyllodd Oedolyn A ond heb gynnwys ei manylion llawn.	Cyflwynwyd HDC a grybwyllodd Oedolyn A ond heb gynnwys ei manylion llawn.	Cyflwynwyd HDC ond ni soniwyd dim am Oedolyn A.	Un wythnos yn ddiweddarach, trefnodd y gweithiwr cymdeithasol ymweliad ar y cyd â'r darparwr gofal.	Roedd manylion Oedolyn A wedi'u cynnwys ar yr HDC ond ni chafodd yr HDC ei rannu â'r	Cafodd Oedolyn A ei asesu gan barafeddyg. Penderfynodd y parafeddyg y dylai Oedolyn A aros gartref ar ôl

				Cytunodd Oedolyn A a'i gofalwr i ofal seibiant.	Gwasanaethau Oedolion.	trafodaeth â'r meddyg teulu a oedd yn gweithio y tu allan i oriau meddygon teulu. Argymhellodd y meddyg teulu y dylai'r teulu gysyllti â'u meddyg teulu eu hunain.
--	--	--	--	---	------------------------	--

Dyddiad	6 Ebrill 2017	8 Ebrill 2017	10 Ebrill 2017	24 Ebrill 2017
Digwyddiad	Ymwelodd gofalwyr ag Oedolyn A gan sylwi ar anafiadau anesboniadwy: cleisiau ar ochr dde'r wyneb, yr arddwrn chwith a'r fraich/ysgwydd dde. Roedd hi mewn poen sylweddol. Gofynnwyd i'r meddyg teulu ymweld â hi. Anfonwyd atgyfeiriad diogelu oedolyn ynglŷn â cham-drin tybiedig.	Ystyrid bod oedolyn A yn feddygol iach i gael ei rhyddhau o'r ysbyty.	Gofynnodd staff Diogelu Oedolion i dîm gwaith cymdeithasol yr ysbyty 'wneud ymholiadau' am y cam-drin tybiedig h.y. ceisio barn a dymuniadau Oedolyn A ac asesu ei galluedd i ddeall risg a gwneud cwyn i'r heddlu. Gohiriwyd yr atgyfeiriad diogelu am 7 niwrnod wrth aros am	Aeth Oedolyn A yn dost. Roedd ganddi haint ar ei brest a dechreuwyd rhoi gwrthfotigau iddi.

			ganlyniad yr ymholiadau hyn. Ddeuddydd yn ddiweddarach ymwelodd gweithiwr cymdeithasol yr ysbyty ag Oedolyn A a darganfu ei bod yn anfodlon trafod sut cafodd hi'r anafiadau.	
Canlyniad	Ymwelodd y meddyg teulu â hi a threfnodd iddi gael ei chludo i'r ysbyty mewn ambiwlans gan fod posibilrwydd bod ei chlun wedi torri. Roedd Oedolyn A yn ymddangos ei bod wedi dihydradu ac adroddwyd ei bod yn colli pwysau ac nad oedd hi'n bwyta nac yn yfed. Roedd hi'n mynd yn fwyfwy dryslyd. Aseswyd Oedolyn A yn yr Adran Achosion brys a'i derbyn yn y ward.	Ddeuddydd cyn hynny roedd y Tîm Gofal Cymdeithasol Oedolion wedi gofyn i'r ward drefnu ei rhyddhau'n ddiogel i leoliad seibiant.	Bythefnos yn ddiweddarach cofnodwyd y byddai gweithiwr cymdeithasol yr ysbyty yn trefnu cyfarfod cynllunio rhyddhau'n ddiogel a fyddai'n cynnwys y Darparwr Gofal a Gomisiynir a'r meddyg teulu.	Datblygodd Oedolyn A niwmonia a ddaliwyd yn yr ysbyty gan farw chwe diwrnod yn ddiweddarach (tridiau ar ôl y penderfyniad i gynnal cyfarfod cynllunio rhyddhau'n ddiogel).